Senedd Cymru
**Ymchwil y Senedd**

# Y Gyfres Cynllunio
## 1 - Polisi cynllunio cenedlaethol

Rhagfyr 2021



ymchwil.senedd.cymru/

Senedd Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl. Mae'r Senedd, fel y'i gelwir, yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru, ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Senedd:
**ymchwil.senedd.cymru/**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

**Senedd Cymru**
**Tŷ Hywel**
**Bae Caerdydd**
**CF99 1SN**

Ffôn: **0300 200 6317**
E-bost: **Elfyn.Henderson@senedd.cymru**
Twitter: **@SeneddYmchwil**
Ymchwil y Senedd: **ymchwil.senedd.cymru**

**© Hawlfraint Comisiwn y Senedd Cymru 2021**
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn y Senedd Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Senedd Cymru
**Ymchwil y Senedd**

# Y Gyfres Cynllunio
## 1 - Polisi cynllunio cenedlaethol

Rhagfyr 2021

**Awdur:**
Elfyn Henderson

**Trosolwg o'r papur:**
Hysbysiad hwylus yw hwn ar bolisi cynllunio cenedlaethol yng Nghymru. Mae'n nodi'r fframwaith deddfwriaethol ar gyfer y system gynllunio ac yn cyflwyno'r prif ddogfennau cynllunio cenedlaethol: Polisi Cynllunio Cymru a Cymru'r Dyfodol: Y Cynllun Cenedlaethol 2040.

# Cynnwys

**1. Beth yw cynllunio defnydd tir? .......... 1**

**2. Beth yw'r gyfraith sy'n gymwys i gynllunio yng Nghymru? .......... 1**

**3. Beth yw'r polisi cynllunio cenedlaethol? .......... 2**

Polisi Cynllunio Cymru .......... 2

Cymru'r Dyfodol: y Cynllun Cenedlaethol 2040 .......... 3

Nodiadau Cyngor Technegol / Nodiadau Cyngor Technegol Mwynau 4

**4. Ffynonellau allweddol .......... 4**

Llywodraeth Cymru .......... 4

Cymorth Cynllunio Cymru .......... 4

Ymchwil y Senedd .......... 5

**5. Atodiad: Rhestr o Nodiadau Cyngor Technegol a Nodiadau Cyngor Technegol Mwynau .......... 5**

Nodiadau Cyngor Technegol (TAN) .......... 5

Nodiadau Cyngor Technegol Mwynau (MTAN) .......... 6

# 1. Beth yw cynllunio defnydd tir?

Mae'r system cynllunio defnydd tir yng Nghymru yn rheoleiddio'r modd y caiff tir ac adeiladau eu defnyddio a'u datblygu. Mae'n gweithredu ar ddwy lefel:

- Yn genedlaethol: drwy Lywodraeth Cymru a **Penderfyniadau Cynllunio ac Amgylchedd Cymru** (PCAC) (**Arolygiaeth Gynllunio yng Nghymru gynt**);
- Yn lleol: drwy Awdurdodau Cynllunio Lleol (ACLl). Yr ACLl yw'r 22 o Awdurdodau Unedol a'r tri Awdurdod Parc Cenedlaethol.

# 2. Beth yw'r gyfraith sy'n gymwys i gynllunio yng Nghymru?

Mae'r prif gyfreithiau sy'n ymwneud â defnydd tir yng Nghymru wedi'u cynnwys yn y deddfau a ganlyn:

- **Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990**;
- **Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004**;
- **Deddf Cynllunio 2008**;
- **Deddf Cynllunio (Cymru) 2015**.

Mae'r rhan fwyaf o'r ddeddfwriaeth sylfaenol sy'n ymwneud â chynllunio defnydd tir yng Nghymru wedi'i gwneud ar sail Cymru a Lloegr.

Cafodd y rhan fwyaf o'r swyddogaethau gweithredol a'r pwerau i gyflwyno is-ddeddfwriaeth a oedd wedi'u cynnwys yn Neddfau Cymru a Lloegr eu trosglwyddo i Gynulliad Cenedlaethol Cymru (fel y'i ffurfiwyd ac y'i galwyd ar y pryd) gan **Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999**. Yna, o ganlyniad i **Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006**, trosglwyddwyd y pwerau hyn i Weinidogion Cymru.

Yn dilyn y bleidlais 'ie' yn **refferendwm 2011**, a chychwyn rhan 4 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, cafodd y Senedd gymhwysedd i greu deddfwriaeth sylfaenol yn ym maes cyffredinol cynllunio defnydd tir.

*Deddf Cynllunio (Cymru) 2015* yw'r darn arwyddocaol cyntaf o ddeddfwriaeth gynllunio sylfaenol ar sail Cymru yn unig.

O dan **Ddeddf Cymru 2017,** a ddiwygiodd Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006

ymhellach, datganolwyd rhai pwerau cynllunio ychwanegol i Gymru, gan gynnwys cydsynio i rai gorsafoedd cynhyrchu trydan (gweler ein **papur briffio ynghylch cydsynio seilwaith cynhyrchu trydan**).

Gofynnodd Llywodraeth flaenorol Cymru i Gomisiwn y Gyfraith adolygu cyfraith cynllunio yng Nghymru i symleiddio a chydgrynhoi'r ddeddfwriaeth. Ym mis Tachwedd 2018, **cyhoeddodd Comisiwn y Gyfraith ei argymhellion. Derbyniodd Llywodraeth Cymru y rhan fwyaf o'r argymhellion** a **nodwyd ym mis Tachwedd 2020** mai'r prif gyfrwng ar gyfer cyflawni'r newidiadau fyddai Bil Cydgrynhoi Cynllunio. Nid oes amserlen benodol wedi'i chyhoeddi ar gyfer cyflwyno'r Bil eto.

# 3. Beth yw'r polisi cynllunio cenedlaethol?

Mae fframwaith polisi cynllunio defnydd tir Llywodraeth Cymru yn cynnwys y canlynol:

## Polisi Cynllunio Cymru

Cyhoeddwyd Polisi Cynllunio Cymru (PCC) yn 2002 yn wreiddiol, ac mae'n nodi polisïau cynllunio Llywodraeth Cymru. y bydd ACLl yn eu defnyddio i baratoi eu Cynlluniau Datblygu Lleol (CDLl).

Cyhoeddwyd y fersiwn ddiweddaraf o PCC, sef **Polisi Cynllunio Cymru (Argraffiad 11),** ym mis Chwefror 2021. Diweddarwyd PCC yn ddiweddar i adlewyrchu cyhoeddi **Cymru'r Dyfodol: y Cynllun Cenedlaethol 2040** (gweler isod). Cyn hynny, yn 2018, ailstrwythurwyd PCC yn sylweddol i ystyried **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015**. Yn unol â'r argraffiadau blaenorol, cyhoeddir y ddogfen ar-lein yn unig.

Mae'r ddogfen hon:

- yn rhoi trosolwg o'r system gynllunio ac yn nodi'r cyd-destun ar gyfer cynllunio yng Nghymru;
- yn amlinellu'r prif amcanion a'r prif egwyddorion polisi;
- yn pwysleisio 'lleoedd cynaliadwy' fel nod y system gynllunio, ac yn hyrwyddo'r dull 'creu lleoedd' o gyflawni hyn;
- yn seiliedig ar bedair thema - Dewisiadau Strategol a Gofodol; Lleoedd Actif a Chymdeithasol; Lleoedd Cynhyrchiol a Mentrus; a Lleoedd Unigryw a Naturiol;

- yn amlinellu polisïau ar yr holl bynciau defnydd tir allweddol, gan gynnwys tai, trafnidiaeth, datblygu masnachol, ynni, mwynau, seilwaith a gwasanaethau, datblygu economaidd, cyfathrebu electronig, twristiaeth, bioamrywiaeth, lleihau a rheoli risgiau amgylcheddol, materion arfordirol, yr amgylchedd hanesyddol, a hamdden.

## Cymru'r Dyfodol: y Cynllun Cenedlaethol 2040

Mae *Deddf Cynllunio (Cymru) 2015* (Deddf 2015) yn ei gwneud yn ofynnol i Lywodraeth Cymru ddatblygu Fframwaith Datblygu Cenedlaethol (FfDC).

Cyhoeddwyd FfDC cyntaf Cymru, sef **Cymru'r Dyfodol: y Cynllun Cenedlaethol 2040** (Cymru'r Dyfodol), ym mis Chwefror 2021. Mae ein **herthygl** a'r **papur briffio gan y Gwasanaeth Ymchwil** yn crynhoi Cymru'r Dyfodol a'r broses a ddilynwyd i'w ddatblygu.

Mae Cymru'r Dyfodol yn nodi fframwaith defnydd tir 20 mlynedd ac mae'n rhaid ei adolygu o leiaf bob pum mlynedd. Yn wahanol i'w ragflaenydd (Cynllun Gofodol Cymru), mae Cymru'r Dyfodol â statws cynllun datblygu. Mae hyn yn golygu ei fod yn ystyriaeth berthnasol mewn penderfyniadau cynllunio ac mae'n rhaid i'r holl Gynlluniau Datblygu Strategol (CDS) a CDLl gydymffurfio ag ef (gweler ein **papur briffio ar bolisi cynllunio lleol** i wybod mwy am CDS ac CDLl).

Diben Cymru'r Dyfodol yw:

- nodi lle y mae angen twf a seilwaith o bwysigrwydd cenedlaethol a sut y gall y system gynllunio sicrhau hyn;
- rhoi cyfeiriad i'r Cynlluniau Datblygu Strategol a'r Cynlluniau Datblygu Lleol;
- hybu'r broses o benderfynu ar geisiadau o dan y system Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol (DAC) (gweler ein **papur briffio ar DAC**);
- cyd-fynd â Pholisi Cynllunio Cymru, a fydd yn parhau i roi'r cyd-destun ar gyfer cynllunio defnydd tir;
- ategu strategaethau cenedlaethol ar gyfer yr economi, trafnidiaeth, yr amgylchedd, tai, ynni a diwylliant a sicrhau y gellir rhoi'r rhain ar waith drwy'r system gynllunio.

Mae Deddf 2015 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Senedd ystyried drafft o'r FfDC cyn cyhoeddi'r fersiwn derfynol. Bydd gan y Senedd 60 diwrnod (heb gynnwys y toriad) i ystyried yr FfDC drafft. Mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru ystyried unrhyw benderfyniad neu argymhellion a wneir gan y Senedd, neu gan unrhyw un o'i phwyllgorau, wrth benderfynu a ddylid diwygio'r FfDC drafft. Mae'n rhaid iddi

gyhoeddi datganiad ochr yn ochr â'r FfDC terfynol sy'n nodi sut y mae wedi ystyried penderfyniadau neu argymhellion y Senedd.

Craffodd Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Materion Gwledig y Bumed Senedd **ar yr FfDC drafft ym mis Hydref a mis Tachwedd 2020**, a chafodd ei drafod gan y Senedd ddwywaith, ym **mis Medi** a mis **Tachwedd 2020**.

Ym mis Chwefror 2021, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru **Cymru'r Dyfodol: datganiad i'r Senedd** yn dangos sut yr ystyriodd waith craffu'r Senedd a'r newidiadau a wnaed o ganlyniad i hynny.

### Nodiadau Cyngor Technegol / Nodiadau Cyngor Technegol Mwynau

Ategir PCC a Cymru'r Dyfodol gan **ystod o ddogfennau polisi a chanllawiau eraill**, gan gynnwys **Nodiadau Cyngor Technegol** (TAN) sy'n cynnwys canllawiau manwl mewn meysydd penodol. Ceir cyfres gyfatebol ar gyfer mwynau, sef **Nodiadau Cyngor Technegol Mwynau** (MTAN). Mae'r TAN ac MTAN yn seiliedig ar bwnc penodol wedi'u rhestru yn yr Atodiad i'r papur briffio hwn.

## 4. Ffynonellau allweddol

### Llywodraeth Cymru

Mae'r **adran adeiladu a chynllunio** o wefan Llywodraeth Cymru yn cynnwys y wybodaeth a ganlyn:

- **Polisi Cynllunio Cymru (Argraffiad 11, Chwefror 2021)**;
- **Cymru'r Dyfodol – y Cynllun Cenedlaethol 2040**;
- **Nodiadau Cyngor Technegol (TAN) a Nodiadau Cyngor Technegol Mwynau (MTAN)**;
- **Tudalennau polisi a chanllawiau cynllunio**.

### Cymorth Cynllunio Cymru

Sefydliad elusennol yw **Cymorth Cynllunio Cymru** ac mae'n helpu unigolion a chymunedau cymwys i gymryd rhan yn fwy effeithiol yn y system gynllunio. Mae'n darparu gwasanaethau cynghori, gan gynnwys llinell gymorth a'r **canllawiau** hyn.

### Ymchwil y Senedd

Mae papurau briffio cynllunio eraill sy'n cael eu llunio gan Ymchwil y Senedd ar gael dan y **categori cynllunio** ar **wefan Ymchwil y Senedd**.

## 5. Atodiad: Rhestr o Nodiadau Cyngor Technegol a Nodiadau Cyngor Technegol Mwynau

### Nodiadau Cyngor Technegol (TAN)

- **TAN 2: Cynllunio a Thai Fforddiadwy (2006)**
- **TAN 3: Parthau Cynllunio Symlach (1996)**
- **TAN 4: Datblygiad Manwerthu a Masnachol (2016)**
- **TAN 5: Cadwraeth a Chynllunio Natur (2009)**
- **TAN 6: Cynllunio ar gyfer Cymunedau Gwledig Cynaliadwy (2010)**
- **TAN 7: Rheoli Hysbysebion Awyr Agored (1996)**
- **TAN 10: Gorchmynion Cadw Coed (1997)**
- **TAN 11: Sŵn (1997)**
- **TAN 12: Dylunio (2016)**
- **TAN 13: Twristiaeth (1997)**
- **TAN 14: cynllunio'r arfordir (2021)** (i'w ddisodli gan un newydd, sef **TAN 15: datblygu,** llifogydd ac erydu arfordirol, sydd i'w gyhoeddi ar **1 Mehefin 2023)** ar hyn o bryd.
- **TAN 15: datblygu a pherygl llifogydd (2004)** (i'w ddisodli gan un newydd, sef **TAN 15: datblygu, llifogydd ac erydu arfordirol,** sydd i'w gyhoeddi ar **1 Mehefin 2023)** ar hyn o bryd.
- **TAN 16: chwaraeon, hamdden a mannau agored (2009)**
- **TAN 18: trafnidiaeth (2007)**
- **TAN 19: telathrebu (2002)**
- **TAN 20: cynllunio a'r Gymraeg (2017)**
- **TAN 21: gwastraff (2017)**
- **TAN 23: datblygu economaidd (2014)**

- **TAN 24: yr amgylchedd hanesyddol (2017)**

## Nodiadau Cyngor Technegol Mwynau (MTAN)

- **MTAN 1: agregau (2004)**
- **MTAN 2: glo (2009)**